GWASANAETHAU MYFYRWYR

Polisi Cydraddoldeb Trawsrywiol i Fyfyrwyr

Gwybodaeth i Fyfyrwyr

## Ein hymrwymiad

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu cymuned gynhwysol a chroesawgar lle caiff pob myfyriwr eu parchu. Rydym yn darparu cefnogaeth a dealltwriaeth i unigolion sydd eisiau cymryd camau, neu sydd yn cymryd camau, i gyflwyno eu hunain mewn rhywedd sy'n wahanol i'w rhyw adeg eu geni, neu mewn ffordd rhyweddhylifol.

Rydym hefyd yn cymryd ein cyfrifoldeb i ddiogelu hawliau pobl drawsrywiol o ddifrif a sicrhau nad oes unrhyw un yn dioddef gwahaniaethu o unrhyw fath. Mae ein Polisi Gydraddoldeb Traws Myfyrwyr yn darparu llwybr hygyrch a chlir i fyfyrwyr roi gwybod i'r Brifysgol eu bod yn drawsrywiol neu'n trawsnewid. Gellir gweld y polisi llawn yma www.bangor.ac.uk/inclusive-community

## Mynediad at gefnogaeth

Gall Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr Prifysgol Bangor gynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i fyfyrwyr trawsrywiol neu fyfyrwyr sydd eisiau trawsnewid.  Gall hyn gynnwys eich helpu i newid eich cofnod myfyriwr neu reoli amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau meddygol. I gael cymorth gydag unrhyw un o'r materion a drafodir ym Mholisi Traws Gydraddoldeb Myfyrwyr, cysylltwch â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr.

Ebost: cynhwysol@bangor.ac.uk
Ffôn : 01248 388021
www.bangor.ac.uk/inclusive-community

## Cofrestru am y tro cyntaf a gwirio dogfennau adnabod

Mae'r llywodraeth yn ei gwneud hi'n ofynnol bod pob myfyriwr yn dangos eu pasbort, fisa neu dystysgrif geni ynghyd â mathau eraill o ddogfennau adnabod pan fyddant yn cofrestru am y tro cyntaf yn y Brifysgol. Os ydych yn dymuno cael eich adnabod wrth enw gwahanol i'r hyn sydd ar eich dogfennau cyfredol, gallwch ddweud hynny wrthym wrth gofrestru am y tro cyntaf.

Os ydych angen preifatrwydd i gofrestru am reswm sy'n gysylltiedig â'ch hunaniaeth rhywedd, gallwch ofyn am apwyntiad preifat gyda Gweinyddwr Myfyrwyr i ddangos eich dogfennau adnabod. Cysylltwch â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr i drefnu hyn.

Os bydd angen i chi gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau ar eich cwrs ac nid ydych yn dymuno i'ch rhyw ar adeg eich geni neu'ch statws traws gael ei ddatgelu i'r Brifysgol, gallwch gysylltu â Thîm Ceisiadau Sensitif y DBS am ragor o gyngor. sensitive@dbs.gov.uk

## Rhoi gwybod i'r brifysgol fel myfyriwr presennol

Rydym yn annog ac yn croesawu myfyrwyr sydd eisiau rhoi gwybod i ni eu bod yn drawsrywiol neu'n trawsnewid, er mwyn i ni eu cefnogi yn y modd gorau posibl. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr neu'ch Tiwtor Personol i drafod y mater yn gyfrinachol. Efallai y bydd o help i chi drefnu cyfarfod lle gallwch drafod materion fel newid eich cofnod myfyriwr (nid yw hyn yn digwydd trwy ailgofrestru mewn enw newydd), cael cerdyn adnabod newydd, ac os ydych chi eisiau staff a myfyrwyr eraill gael gwybod.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr
cynhwysol@bangor.ac.uk
Ffôn 01248 388021
bangor.ac.uk/inclusive-community

## Newid eich cofnod myfyriwr

Efallai y byddwch am newid agweddau ar eich cofnod myfyriwr i adlewyrchu eich hunaniaeth rhywedd a gall hyn gynnwys newid eich rhyw fel y cofnodir a'ch enw a'ch teitl. Pan fyddwch yn newid eich enw ar eich cofnod myfyriwr, rydym yn eich cynghori i newid eich enw gyda'ch banc, cyllidwr, Cyllid a Thollau ei Mawrhydi ac UCAS hefyd, er mwyn osgoi cymhlethdodau posibl sy'n deillio o gael dau enw.

Gellir gwneud yr holl newidiadau i'ch cofnod myfyriwr trwy Ganolfan Ceisiadau Fy Mangor. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr ar cynhwysol@bangor.ac.uk nei 01248 388021.



## Graddio a thystysgrifau gradd

Yn ôl y gyfraith, dim ond yn eich enw cyfreithiol y gall y brifysgol gyhoeddi tystysgrif gradd. Er mwyn i enw newydd ymddangos ar eich tystysgrif gradd, rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol a darparu tystiolaeth o newid enw yn gyfreithiol.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol y bydd eich enw cyfreithiol yn ymddangos yn y rhaglen raddio ac y caiff ei ddarllen allan fel rhan o'r seremoni oni bai eich bod yn rhoi gwybod beth yw eich dymuniad ymlaen llaw. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr.

## Herio aflonyddu ac ymddygiad negyddol

Ni fydd cam-drin, aflonyddu neu fwlio trawsffobig yn cael ei oddef ac mae'r Brifysgol yn annog yn gryf y dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Gall myfyriwr sydd wedi profi unrhyw fath o aflonyddu gysylltu â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr.

## Cyfleusterau a llety

Credwn y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr trawsrywiol yn dymuno defnyddio'r toiledau a'r cyfleusterau sy'n disgrifio eu rhywedd hunan-ddiffiniedig orau. Felly, rydym yn annog pob myfyriwr trawsrywiol i ddefnyddio'r hyn y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei ddefnyddio. Mae gennym hefyd nifer o doiledau niwtral ar rhan rhyw ar ein campws.

Mae llety i ferched yn unig y Brifysgol yn agored i bob myfyriwr sy'n diffinio eu hunain fel merched.